CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
20 Medi 2016, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng C McGregor, D Morgan, W Vaughan, D ap Rhobert, D Pritchard, G D Williams, A Williams	
YMDDIHEURIADAU: Cyng W Williams, A Wyn, D Roberts, R G Parry (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D Pritchard
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng A Williams - cais cynllunio 23C246D
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 26 Gorffennaf 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn, Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng G D Williams yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gor-yrru Llangwyllog** - Darllenwyd adroddiad gan yr Heddlu. Mae nifer o fodurwyr wedi derbyn rhybuddion am fynd dros y cyflymder.
4.2	**Gofeb Talwrn** - Mae'r clerc yn disgwyl clywed gan Inigo Jones
4.3	**Coed - Maes y Coed** - Nid yw'r Clerc wedi gallu cael pris arall a wedi gofyn i Roundwood Tree Technology symud ymlaen gyda'r gwaith
4.4	**Damwain sgwar Talwrn** - mewn llaw
4.5	**Mainc Mynydd Bodafon** - mewn llaw
4.6	**Seddi gwag** - Nid oes unrhyw ceisiadau wedi dod i law
4.7	**Tyllau/Dwr ar y ffordd - Llanddyfnan** - Mae'r Gang Cymunedol wedi llenwi y tyllau
4.8	**Gamfa - llwybr cyhoeddus** - Mae'r cyngor Sir am gweithio ar y gamfa
4.9	**Baw ci lon yr Ysgol** - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C280H/SCR Cais barn sgrinio i newid defnydd adeiladau allanol i 12 annedd, gosod paced trin carthffosiaeth ynghyd a gwellianau i'r mynedfa presennol yn Plas Llanfihangel, Capel Coch. Gwrthwynebu - un fath â'r cais diwethaf.
5.2	23C280G Cais llawn i newid defnydd adeiladau allanol i 10 annedd, gosod paced trin carthffosiaeth ynghyd a gwelliannau i'r mynedfa presennol yn Plas Llanfihangel, Capel Coch (cynllun a disgrifiad diwygiedig). Gwrthwynebu - un fath â'r cais diwethaf.
	Llofnod…….Cadeirydd 25.10.16

5.3	23C246D Cais llawn i godi ystafell ardd yn Granary Cottage, Talwrn - dim sylwadau
5.4	23C337 Cais llawn i cloddio am gorlifan newydd i ryddhau dwr o Lyn Frogwy i Afon Cefni ar dir ger Llyn Frogwy, Bodffordd/Llangwyllog - dim sylwadau
5.5	23C160N Cais cynllunio i gyfuno y caniatadau cynllunio hynny sydd yn bodoli ar gyfer chwarelu, tir lenwi (gwastraff anadweithiol) a gweithgareddau gwastraff eraill, ynghyd a ail broffilio lefelau tir fel rhan o gynllun adfer terfynnol ar gyfer y safle yn Rhuddlan Bach Quarry, Brynteg - dim sylwadau
5.6	23C388 - Cais llawn i ddymchwel yr annedd adfail a garafan preswyl o fewn y cwrtil ynghyd a chodi un annedd newydd yn ei le yn Yr Allt, Llanffinan - dim sylwadau
	Priffyrdd
5.7	Gordyfiant a Lladd Chwyn, Talwrn - Bydd yr Arolygwr Gwaith Strydoedd yn ymweld ar safleoedd sydd gyda gordyfiant ac yn gofyn i'r tir feddianwyr priodol dorri eu gwrychoedd yn ôl.
5.8	Gamfa - llwybr cyhoeddus - gweler 4.8
5.9	Tyllau ar y ffordd - Llanddyfnan - gweler 4.7
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Yr Heddlu - gor-yrru Llangwyllog - gweler 4.1
8	**MATERION ARIANNOL**
8.1	Penderfynwyd talu y canlynnol: Costau y Clerc £171.90
9	**MATERION ERAILL**
9.1	Tarmacio y ffordd yn Mynydd Bodafon - Mae Cyng G D Williams wedi derbyn cwynion ynglŷn â ffoes heb eu marcio ar y bryn o Fynydd Bodafon i Penrhoslligwy. Mae angen ail-baentio y llinell wen a bosib ail tarmacio. Mae wedi mynychu sawl gwaith er mwyn helpu i symud cerbydau yn sownd yn y ffoes. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
9.2	Dyddiad y cyfarfod nesaf - Cytunwyd i symud cyfarfodydd - Hydref - i 25.10.16 a Tachwedd i 22.11.16
9.3	Dal dim arwyddion baw ci wedi ei codi rhwng Lon Hen Hafod a Lon Penybryn yn Talwrn - bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
9.4	Tyfiant ar palmentydd Talwrn - gweler 5.7
9.5	Penderfyniad Cais cynllunio 23C332 - cais llawn ar gyfer codi 4 annedd ynghyd a creu mynedfa i gerbydau ar dir ger Bryn Brochan, Talwrn - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
9.6	Polion BT - Mae Cyng A Williams wedi derbyn cwynion am polion peryglus (BT) ar hyd y B5110. Bydd y Clerc yn cysylltu a BT.
	Llofnod…….Cadeirydd 25.10.16

10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.1	Gor-yrru Talwrn
10.2	Halfway, Talwrn (ildio)
10.3	Lon sgwar Talwrn - Hen Bost, Talwrn
10.4	Llwybrau Cyhoeddus Talwrn
10.5	Gwrychoedd, Lon yr Ysgol, Talwrn
10.6	Ceblau broadband
	Llofnod…….Cadeirydd 25.10.16